OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 Rhif 1031 (Cy. 171)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn amrywio Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019 (O.S. 2019/18 (Cy. 7)).

O dan adran 8 o Ddeddf Plâu 1954 (p. 68), mae'n drosedd i ddefnyddio neu i ymwybodol ganiatáu defnyddio unrhyw drap sbring, ac eithrio trap sydd wedi ei gymeradwyo drwy Orchymyn, ar anifeiliaid neu mewn amgylchiadau nad yw wedi ei gymeradwyo ar eu cyfer.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu mathau o drapiau sbring at y rhai sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru, sef yr Aurotrap, y Quill Trap, y Smart Catch, y Smart Catch Mini, y Smart Pipe Long Life 110, y Smart Pipe Long Life 160, y Smart Pipe Long Life 200, y Smart Pipe Long Life 250, a'r Smart Pipe Long Life 300 (erthygl 2(a)).

Mae hefyd yn dileu'r WCS Collarum Stainless UK Fox Model, y WiseTrap 110, y WiseTrap 160, y WiseTrap 200 a'r WiseTrap 250 o'r trapiau sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru (erthygl 2(b)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

# 2023 No. 1031 (W. 171)

# ANIMALS, WALES

## The Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2023

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order varies the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/18 (W. 7)).

Under section 8 of the Pests Act 1954 (c. 68), it is an offence to use or knowingly permit the use of any spring trap, other than a trap that has been approved by Order, for animals or in circumstances for which it is not approved.

This Order adds types of spring traps to those approved for use in Wales, namely the Aurotrap, the Quill Trap, the Smart Catch, the Smart Catch Mini, the Smart Pipe Long Life 110, the Smart Pipe Long Life 160, the Smart Pipe Long Life 200, the Smart Pipe Long Life 250, and the Smart Pipe Long Life 300 (article 2(a)).

It also removes the WCS Collarum Stainless UK Fox Model, the WiseTrap 110, the WiseTrap 160, the WiseTrap 200 and the WiseTrap 250 from the traps approved for use in Wales (article 2(b)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1031 (Cy. 171)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *29 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 8(3) a (7) o Ddeddf Plâu 1954(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Amrywio) (Cymru) 2023 a daw i rym ar 29 Medi 2023.

**Amrywio Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019**

**2.** Mae'r Atodlen i Orchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019(**3**) wedi ei hamrywio fel a ganlyn—

(a) yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y cofnodion a ganlyn—

| | |
|---|---|
| "**Aurotrap** a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, AUROCON Automated Rodent Control, Industrivej 35, 9600 Aars, Denmarc. | Ni chaniateir defnyddio'r trap ond at ddiben lladd llygod mawr." |

(**1**) 1954 p. 68. Diwygiwyd adran 8(7) gan adran 1(1) o Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1973 (p. 39) a Rhan 8 o Atodlen 1 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd holl swyddogaethau unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron yn Neddf Plâu 1954, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2019/18 (Cy. 7), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/709 (Cy. 179).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 1031 (W. 171)

# ANIMALS, WALES

## The Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 September 2023* |
| *Coming into force* | *29 September 2023* |

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 8(3) and (7) of the Pests Act 1954(**1**) and now vested in them(**2**).

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the Spring Traps Approval (Variation) (Wales) Order 2023 and it comes into force on 29 September 2023.

**Variation of the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019**

**2.** The Schedule to the Spring Traps Approval (Wales) Order 2019(**3**) is varied as follows—

(a) at the appropriate places in alphabetical order insert the following entries—

| | |
|---|---|
| "**Aurotrap** manufactured by or under the authority of AUROCON Automated Rodent Control, Industrivej 35, 9600 Aars, Denmark. | The trap may be used only for the purpose of killing rats." |

(**1**) 1954 c. 68. Section 8(7) was amended by section 1(1) of, and Part 8 of Schedule 1 to, the Statute Law (Repeals) Act 1973 (c. 39).

(**2**) All functions of a Minister of the Crown in the Pests Act 1954 were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions were transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) S.I. 2019/18 (W. 7), amended by S.I. 2021/709 (W. 179).

| | |
|---|---|
| “**Quill Trap** a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Quill Productions, Manor Farm, Pulham, Dorchester, Dorset, DT2 7EE. | Ni chaniateir defnyddio’r trap ond at ddiben lladd carlymod, gwencïod a llygod mawr.<br>Pan gaiff y trap ei ddefnyddio ar ffurf â phen caeedig, rhaid gosod y trap mewn twnnel artiffisial a adeiladwyd i’r dyluniad a bennwyd gan Quill Productions gan ddefnyddio deunyddiau sy’n addas at y diben.<br>Pan gaiff y trap ei ddefnyddio ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo, rhaid gosod y trap yn unol â chyfarwyddiadau’r gweithgynhyrchydd wrth ei osod ar ffurf y gall anifail redeg drwyddo mewn twnnel naturiol neu artiffisial sydd, yn y naill achos neu’r llall, yn addas at y diben.” |
| “**Smart Catch** a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Anticimex Innovation Center A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmarc. | Ni chaniateir defnyddio’r trap ond at ddiben lladd llygod mawr a llygod.” |
| “**Smart Catch Mini** a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Anticimex Innovation Centre A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmarc. | Ni chaniateir defnyddio’r trap ond at ddiben lladd llygod mawr.” |
| “**Smart Pipe Long Life 110** (eitem rhif 141110), **Smart Pipe Long Life 160** (eitem rhif 141160), **Smart Pipe Long Life 200** (eitem rhif 141200), **Smart Pipe Long Life 250** (eitem rhif 141250), a **Smart Pipe Long Life 300** (eitem rhif 141300) a weithgynhyrchir gan, neu o dan awdurdod, Anticimex Innovation Center A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmarc. | Ni chaniateir defnyddio’r trap ond at ddiben lladd llygod mawr.<br>Rhaid gosod y trap mewn carthffos, pibell ddraenio neu strwythur tebyg.” |

| | |
|---|---|
| “**Quill Trap** manufactured by or under the authority of Quill Productions, Manor Farm, Pulham, Dorchester, Dorset, DT2 7EE. | The trap may be used only for the purpose of killing stoats, weasels and rats.<br>When used in a closed-end trap configuration, the trap must be set in an artificial tunnel constructed to the design specified by Quill Productions using materials suitable for the purpose.<br>When used in a run-through trap configuration, the trap must be set in accordance with the manufacturer’s instructions for the run-through configuration in a natural or artificial tunnel which is, in either case, suitable for the purpose.” |
| “**Smart Catch** manufactured by or under the authority of Anticimex Innovation Center A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmark. | The trap may be used only for the purpose of killing rats and mice.” |
| “**Smart Catch Mini** manufactured by or under the authority of Anticimex Innovation Centre A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmark. | The trap may be used only for the purpose of killing rats.” |
| “**Smart Pipe Long Life 110** (article number 141110), **Smart Pipe Long Life 160** (article number 141160), **Smart Pipe Long Life 200** (article number 141200), **Smart Pipe Long Life 250** (article number 141250), and **Smart Pipe Long Life 300** (article number 141300) manufactured by or under the authority of Anticimex Innovation Center A/S, Skovgaardsvej 23E, DK-3200 Helsinge, Denmark. | The trap may be used only for the purpose of killing rats.<br>The trap must be set within a sewer, drainpipe, or similar structure.” |

(b) hepgorer y cofnodion ar gyfer yr WCS Collarum Stainless UK Fox Model a'r WiseTrap 110, y WiseTrap 160, y WiseTrap 200 a'r WiseTrap 250.

(b) omit the entries for the WCS Collarum Stainless UK Fox Model and the WiseTrap 110, WiseTrap 160, WiseTrap 200 and WiseTrap 250.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
20 Medi 2023

Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd, one of the Welsh Ministers
20 September 2023

©ⓗHawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39471-9

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/1031